**PWYLLGOR ARDAL DWYFOR**

**6/3/17 (5.20PM – 7.35PM)**

**Presennol:-** Y Cynghorydd John Brynmor Hughes (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr: Stephen Churchman, Anwen Davies, Aled Evans, Alwyn Gruffydd, Jason Humphreys, Aled Wyn Jones, Michael Sol Owen, Angela Ann Russell, Hefin Underwood, Eirwyn Williams, Gruffydd Williams, Owain Williams ac R. H. Wyn Williams.

**Swyddogion:-** Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau).

Hefyd: Y Cynghorydd Mandy Williams-Davies (Aelod Cabinet Economi) a Sioned Williams (Pennaeth Economi a Chymuned); Amanda Davies (Rheolwr Adfywio Cymunedol) ac Alys Lloyd Jones (Swyddog Adfywio Ardal Dwyfor) ar gyfer eitem 1 isod; Dylan Griffiths (Rheolwr Strategaeth a Datblygu) a Sioned Morgan Thomas (Cydlynydd Gwledig Gwynedd Dros Dro) ar gyfer eitem 2 isod; Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig) ar gyfer eitem 3 isod.

**Ymddiheuriadau:-** Y Cynghorwyr Simon Glyn, E. Selwyn Griffiths a Peter Read.

| | | |
|---|---|---|
| **1** | **Rhaglen Waith y Gwasanaeth Adfywio Cymunedol**<br><br>Cyflwynodd y Rheolwr Adfywio Cymunedol raglen waith y Swyddog Adfywio Lleol gan fanylu ar fesuryddion y Gwasanaeth Adfywio Cymunedol. Manylodd Swyddog Adfywio Ardal Dwyfor ar brosiect Hafod Ceiri.<br><br>Nodwyd diolch am y gefnogaeth a roddir gan Swyddog Adfywio Ardal Dwyfor i'r prosiectau. | |
| | Pwynt Gweithredu:<br><br>• Codi ymwybyddiaeth o'r grantiau posib gan Cist Gwynedd a chyfeirio unrhyw un â diddordeb mewn gwneud cais at Uwch Swyddog Cist Gwynedd. (Manylion pellach ar y wefan - https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Budd-daliadau-a-grantiau/Grantiau-cymunedol--elusennau/Grantiau-cymunedol--elusennau.aspx) | Aelodau |

| | | |
|---|---|---|
| **2** | **Cynllun Cyflogaeth Llŷn ac Eifionydd**<br><br>Derbyniwyd diweddariad ar yr uchod gan y Rheolwr Strategaeth a Datblygu a Chydlynydd Gwledig Gwynedd Dros Dro. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Pwyntiau Gweithredu:<br><br>• Hyrwyddo beth sydd ar gael o ran band eang i fusnesau.<br>• Cadarnhau trefniadau o ran y gronfa Tâl Tai Dewisol sydd yn cefnogi teuluoedd i osgoi mynd i ddyled oherwydd y dreth llofftydd.<br>• Codi'r mater o ran y disgwyliad bod cyfleoedd i bobl leol yn ystod trafodaethau efo parc gwyliau Hafan y Môr.<br>• Gwirio faint o unigolion lleol a gyflogir gan Blas Heli.<br>• Gwneud ymholiadau o ran y gwaith a gwblheir gan Ymgynghoriaeth Gwynedd o ran Rhaglen Rheoli Risg Arfordirol 2016-17.<br>• Anfon sylw o ran cyflwr y cylchdeithiau yn enwedig y llwybr rhwng Nefyn a Phistyll at yr Uned Llwybrau.<br>• Cyflwyno'r camau nesaf i'r Fforwm Ardal yn dilyn etholiad Mai 2017.<br>• Anfon copi o'r cyflwyniad i'r aelodau | Aelodau<br><br>DG<br><br>DG/SEW<br><br>DG<br>"<br><br>"<br><br>"<br><br>BA |

Cadeiriwyd y drafodaeth ar yr eitem isod gan y Cynghorydd Eirwyn Williams (Is-Gadeirydd).

| | | |
|---|---|---|
| **3** | **Rheolaeth o'r Arfordir**<br><br>Derbyniwyd diweddariad ar yr uchod gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig. | |
| | Pwyntiau Gweithredu:<br><br>• Gweithredu trefn dros dro yn ardal Morfa Nefyn am y tymor gan drafod efo partneriaid eraill gan gynnwys Cyngor Tref Nefyn yng nghyswllt datrysiad tymor hir.<br>• Ail edrych ar y strategaeth traethau. | BD/SEW<br><br>" |